MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL
(MEMORANDWM RHIF 2)

BIL ADDYSG UWCH AC YMCHWIL
Diwygiadau mewn perthynas â Chymorth Ariannol i Fyfyrwyr a'r Cynllun Cwynion Myfyrwyr

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.

2. Cyflwynwyd y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mai 2016. Mae'r Bil bellach wedi cyrraedd cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi. Mae pob cyfeiriad at rifau cymal yn cyfeirio at HL Bill 76 fel y'i cyflwynwyd yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 22 Tachwedd. Ceir copi diweddaraf y Bil yn:
http://services.parliament.uk/bills/2016-17/highereducationandresearch.html

Amcanion polisi

3. Amcanion polisi Llywodraeth y DU yw cynyddu'r gystadleuaeth a'r dewis yn y sector addysg uwch yn Lloegr, codi safonau a chryfhau galluoedd y Deyrnas Unedig ran ymchwil ac arloesi.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran Addysg. Mae'n darparu ar gyfer:
   - sefydlu corff cyllido rheoleiddiol ac addysgol newydd ar gyfer y sector Addysg Uwch (AU) yn Lloegr - y Swyddfa Myfyrwyr (OfS);
   - gweithredu cofrestr gan yr OfS o ddarparwyr Addysg Uwch yn Lloegr a chynllun graddau ansawdd a safonau (y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu("TEF"));
   - galluogi OfS i roi pwerau dyfarnu graddau a chaniatáu teitl prifysgol i ddarparwyr AU yn Lloegr (lle mae darparwyr yn ymgeisio am bwerau dyfarnu graddau neu deitl prifysgol);
   - galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i ofyn am ddata cais i dderbyn gan sefydliadau sy'n cynnig gwasanaeth derbyniadau canolog a rennir i ddarparwyr AU yn Lloegr at ddibenion ymchwil;
   - trefniadau ar gyfer taliadau cyllid myfyrwyr amgen yng Nghymru a Lloegr;
   - dadreoleiddio corfforaethau addysg uwch yn Lloegr; a
   - sefydlu corff ymchwil ac arloesi newydd, sef Ymchwil ac Arloesi'r Deyrnas Unedig (UKRI).

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau canlynol:

Cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n daladwy i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau AU mewn sefydliadau yn Lloegr

5. Roedd y Bil, fel y'i diwygiwyd yng nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, yn gwneud darpariaeth yng nghymal 82 i Weinidogion Cymru arfer eu pwerau i wneud rheoliadau o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (Deddf 1998) er mwyn gallu:

   - gwneud y rheoliadau ar gymorth i fyfyrwyr addysg uwch yng Nghymru mewn ffordd lle maent yn dynodi cyrsiau a ddarperir gan sefydliadau yn Lloegr drwy gyfeirio at faterion a bennir neu a gyhoeddir gan yr OfS neu bersonau eraill (megis y gofrestr arfaethedig o ddarparwyr); a
   - phennu uchafswm y cymorth sydd ar gael i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch mewn sefydliadau yn Lloegr drwy gyfeirio at faterion a bennir neu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu bersonau eraill (megis graddau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu).

6. Cafodd y darpariaethau uchod eu cynnwys yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 17 Tachwedd ac a ddiwygiwyd ar 1 Ragfyr 2016. Bellach, ceisir cydsyniad ar gyfer diwygiadau i gymalau 82(2) ac 82(4) a gyflwynwyd gan yr Is-iarll Younger o Leckie a'u cynnwys yn niwygiadau cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 3 Ionawr 2017. Mae'r diwygiadau'n darparu bod rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan yr hyn fydd yn adran 22(2)(aa) ac adran 22(2A) o Ddeddf 1998 yn gallu cyfeirio at faterion a bennir neu a gyhoeddir gan y Swyddfa Myfyrwyr neu bersonau eraill boed hynny cyn neu ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud, ac i faterion a bennir neu a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu bersonau eraill boed hynny cyn neu ar ôl i'r rheoliadau gael eu gwneud.

7. Effaith y diwygiadau fyddai bod rheoliadau Llywodraeth Cymru ar gymorth myfyrwyr yn gallu cyfeirio at yr wybodaeth fwyaf diweddar am raddau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu a'r gofrestr o ddarparwyr a gyhoeddir gan y Swyddfa Myfyrwyr, yn hytrach na dibynnu ar wybodaeth sydd eisoes wedi'i chyhoeddi ar yr adeg y caiff y rheoliadau eu gwneud.

8. Mae rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 22 o Ddeddf 1998 mewn perthynas â Chymru yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol ar hyn o bryd. Byddant yn parhau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn hon pan fydd yr adran honno'n cael ei diwygio gan gymal 82 o'r Bil. Mae Cymal 118 o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gychwyn darpariaethau penodol mewn perthynas â chymal 82 drwy reoliadau. Bydd Gweinidogion Cymru'n gallu cychwyn cymal 82 i'r graddau y mae'r cymal hwn yn mewnosod adran 22(2)(aa) a 22(2A) newydd i Ddeddf 1998 mewn perthynas â Chymru. Nid oes gweithdrefn gan y Cynulliad sy'n berthnasol i'r pwerau uchod sydd gan Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau cychwyn.

Cynllun Cwynion ar gyfer Myfyrwyr Darparwyr Addysg Uwch Annibynnol

9. Mae'r Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn darparu bod darparwr AU yn Lloegr sy'n peidio â bod yn sefydliad cymwys at ddibenion y cynllun cwynion ar gyfer myfyrwyr darparwyr addysg uwch annibynnol, yn cael ei ystyried yn aelod dros dro o'r cynllun am 12 mis ar ôl y dyddiad dadgofrestru. Golyga hyn y bydd cwynion yn erbyn darparwyr o'r fath yn parhau i gael eu hystyried yn ystod y cyfnod hwnnw ar gyfer gweithredoedd neu anweithiau a ddigwyddodd cyn bod y darparwr yn dod yn aelod dros dro.

10. Ceisir cydsyniad ar gyfer diwygiad i gymal 83 a diwygiad i gymal 118 a gyflwynwyd gan yr Is-iarll Younger o Leckie a'u cynnwys yn niwygiadau cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ar 3 Ionawr 2017. Bydd hyn yn golygu bod y diogelwch dros dro ar gyfer myfyrwyr mewn perthynas â'r cynllun cwynion ar gyfer myfyrwyr darparwyr addysg uwch annibynnol yng nghymal 82(3) o'r Bil, yn berthnasol i sefydliadau cymwys yng Nghymru. Mae'r diwygiad yn gwneud darpariaeth lle mae darparwr yn peidio â bod yn sefydliad cymwys fel bod darparwr o'r fath yn cael ei ystyried yn aelod dros dro o'r cynllun cwynion am 12 mis, neu am y cyfnod sy'n dechrau gyda'r dyddiad y mae'n peidio â bod yn sefydliad cymwys ac yn dod i ben ar y dyddiad y mae'n dod yn sefydliad cymwys unwaith eto, pa un bynnag sydd fyrraf. Bydd cwynion yn erbyn aelodau dros dro yn cael eu hystyried os yw'r weithred neu'r anwaith y mae'r cwyn yn cyfeirio ato wedi digwydd cyn bod y darparwr yn dod yn aelod dros dro.

11. Gwneir mân newid technegol i adran 11(e) o Ddeddf Addysg Uwch 2004 hefyd er mwyn gwneud y ddarpariaeth yn gliriach drwy egluro ei bod yn berthnasol i sefydliad nad yw eisoes yn dod o dan unrhyw baragraff blaenorol yn adran 11. Mae cymal 118 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gychwyn y darpariaethau yng nghymal 83 i'r graddau y maent yn berthnasol i Gymru drwy reoliadau. Nid oes gweithdrefn gan y Cynulliad sy'n berthnasol i'r pwerau uchod sydd gan Weinidogion Cymru i gychwyn rheoliadau (mae cymal 113(7) yn berthnasol).

12. Mae angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau a restrir uchod am eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn berthnasol i addysg a hyfforddiant o dan baragraff 5, Rhan 1, Atodlen 7 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Addysg Uwch ac Ymchwil

Cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n daladwy i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau AU mewn sefydliadau yn Lloegr

13. Os na chaiff y diwygiadau i gymal 82 eu cymhwyso i Gymru, mae perygl na fydd y cymorth ffioedd dysgu sy'n daladwy i fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau AU mewn sefydliadau yn Lloegr yn cyd-fynd â'r ffioedd dysgu a godir. Heb y diwygiad hwn, gall sefyllfa godi lle mae'r ffioedd y mae'n rhaid i fyfyrwyr o Gymru eu talu ar gyfer blwyddyn academaidd yn fwy na'r

cymorth sy'n daladwy i fyfyrwyr o dan reoliadau Llywodraeth Cymru, ac felly bydd myfyrwyr o'r fath yn gorfod talu'r gwahaniaeth eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru'n ystyried bod angen i'r rheoliadau ar gymorth myfyrwyr allu bod yn gyson â'r wybodaeth fwyaf diweddar ynghylch graddau Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu sefydliadau yn Lloegr a hefyd y gofrestr o ddarparwyr yn Lloegr ar ddechrau blwyddyn academaidd, er mwyn sicrhau bod y cymorth ffioedd dysgu sy'n daladwy yn cyd-fynd â'r ffioedd a godir ar fyfyrwyr o Gymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch yn Lloegr.

Cynllun Cwynion ar gyfer Myfyrwyr Darparwyr Addysg Uwch Annibynnol

14. Cafodd y cynllun cwynion ar gyfer myfyrwyr darparwyr addysg uwch annibynnol ei sefydlu yn 2005 o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 ac mae'n cael ei weithredu ar hyn o bryd ar sail Cymru a Lloegr gan Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA). Mae pob darparwr addysg uwch yng Nghymru sy'n cynnig cyrsiau a ddynodir ar gyfer cymorth statudol i fyfyrwyr yn ddarostyngedig i'r cynllun cwynion.

15. Gan fod y cynllun cwynion yn gweithredu ar sail Cymru a Lloegr, mae'n ddymunol i sail gyfreithiol y cynllun barhau'n gyson yn y ddwy weinyddiaeth. Bydd sicrhau bod y ddarpariaeth newydd yn ymwneud â diogelwch dros dro yn berthnasol i sefydliadau cymwys yng Nghymru yn golygu bod y cynllun yn cynnig yr un lefel o ddiogelwch i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau gyda darparwyr yng Nghymru â'r rheini sy'n dilyn cyrsiau gyda darparwyr yn Lloegr.

Y goblygiadau ariannol

16. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru os yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n cydsynio i'r darpariaethau fod yn berthnasol i Gymru.

Casgliad

17. Ym marn Llywodraeth Cymru mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau ym Mil y DU hwn gan mai hwn yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn gymwys mewn perthynas â Chymru. Mae angen y darpariaethau ar gyfer cymorth ffioedd dysgu er mwyn sicrhau nad yw myfyrwyr o Gymru dan anfantais mewn perthynas â'r graddau mwyaf diweddar. Mae'r system gwynion bresennol i fyfyrwyr yn gweithredu ar sail Cymru a Lloegr, a byddai'r diogelwch dros dro y mae'r ddarpariaeth hon yn ei gynnig yn sicrhau bod myfyrwyr sy'n astudio mewn sefydliadau yng Nghymru yn cael yr un mynediad i'r cynllun a'r rheini sy'n astudio mewn sefydliadau eraill yn y DU.

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Ionawr 2017